



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diogelu Cymru

Canllawiau Covid-19
ar gyfer Addysg Uwch



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



UNDEB EYROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	5
Mehefin 2020	6
Llety	7
Hunanynyysu	8
Profi, Olrhain, Diogelu	9
Asesu'r galw gan fyfyrwyr sydd angen cymorth	10
Ystyriaethau ar gyfer cefnogaeth wyneb yn wyneb	12
Rheoli'r ddarpariaeth yn ddiogel: dysgu yn y gweithle, prentisiaethau addysg uwch a chyflawni masnachfreintiau	14
Canllawiau cyffredinol ar fesurau diogelu	15
Gweithredoedd yn dilyn achos tybiedig neu achos a gadarnhawyd o Covid-19	19
Defnydd o ofod awyr agored a gofod a rennir	20
Trefniadau cludiant	20
Cyfarpar diogelu personol	20
Edrych tua'r dyfodol	22

Cyflwyniad

Canllawiau cam cyntaf yw'r canllawiau hyn. Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ymchwil ac arloesi a fydd yn dod o dan ganllawiau sector-benodol. Byddant yn cael eu hadolygu a'u mireinio ar gyfer y dyfodol, mewn ymgynghoriad â'r sectorau. Y bwriad yw bod y canllawiau hyn yn galluogi ac yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.

Bydd iechyd, diogelwch a llesiant y gymuned brifysgol gyfan yn parhau i fod y brif flaenoriaeth wrth i Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) lunio paratoadau i gefnogi myfyrwyr wrth i ni ddod at ddiwedd y flwyddyn academaidd a dechrau cynllunio ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb pan fydd y cyfyngiadau symud cyfredol yn cael eu llacio.

Rhagwelwn y bydd modd i SAU ailagor eu hamgylcheddau dysgu, eu campysau a'u cyfleusterau eraill gan lynu at y [cyfyngiadau cadw pellter corfforol a chymdeithasol](#) a chanllawiau eraill y Llywodraeth y mae'n rhaid i SAU roi sylw iddynt. Cynlluniwyd y rhain i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd, a lleihau lledaeniad y Coronafeirws.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rhai o'r mesurau y gallai fod angen i SAU eu dilyn er mwyn diogelu iechyd myfyrwyr, staff a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

Rhaid i ddarparwyr AU sicrhau bod dysgu wyneb yn wyneb yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a'u bod yn rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau hynny.

Wrth i ni symud i'r dyfodol, byddwn yn diweddarau'r canllawiau wrth i ni barhau i fonitro effeithiau'r feirws ac unrhyw newidiadau yn y cyngor meddygol.

Rydym yn cydnabod bod SAU yn datblygu cynlluniau ar gyfer y cam nesaf ac rydym yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu canllawiau pellach i'w cynorthwyo wrth iddynt ddatblygu eu protocolau a'u gweithdrefnau manwl eu hunain.

Rhagwelir y bydd canllawiau yn y dyfodol yn darparu mwy o fanylion ynghylch:

- Llety
- Profi, Orlhain, Diogelu
- Myfyrwyr rhyngwladol
- Cymuned

Mae'n bosibl y ceir cyfnodau pan fydd y cyfyngiadau'n symud ymlaen ond mae'n bosibl y bydd cyfnodau hefyd pan fydd angen i ni symud yn ôl wrth ymateb i'r feirws, er enghraifft os oes cynnydd mewn cyfraddau heintiau yn ystod misoedd y gaeaf.

Yn ogystal, mae Prifysgolion Cymru, ar y cyd ag Universities UK, wedi darparu cyfres o [egwyddorion sector](#) ac ystyriaethau ar gyfer symud allan o'r cyfnod o gyfyngiadau symud, y bwriedir i'r canllawiau hyn eu hategu.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda SAU, staff a chynrychiolwyr myfyrwyr i lunio'r canllawiau hyn, a byddwn yn parhau â'r sgwrs hon wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Rydym wedi ymrwmo i gydweithio mewn partneriaeth â'r sector AU er mwyn symud ymlaen o'r sefyllfa bresennol mewn ffordd ddiogel a phwrpasol.

Cyfrifoldeb darparwyr dysgu unigol yw cynnal [asesiadau risg addas a digonol](#) a rhoi mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#). Yn ogystal, dylai sefydliadau addysg uwch gynnal asesuadau o effaith er mwyn sicrhau nad yw unrhyw fesurau yn anfanteisiol i unrhyw grŵp penodol o staff neu fyfyrwyr. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [teclyn asesu risg](#) ar gyfer [cefnogi gweithwyr](#) ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bwriad y canllawiau hyn yw darparu fframwaith cyffredinol i gynorthwyo darparwyr i wneud hyn.

Rydym wedi gweithio gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i baratoi'r canllawiau hyn a disgwylwn i bob sefydliad barhau i weithio mor agos â phosibl gyda chynrychiolwyr myfyrwyr. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn rhoi cymorth i undebau myfyrwyr lleol i gefnogi hyn gymaint â phosibl.

Mae SAU yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau lleol a bydd hyn yn hanfodol wrth i'r SAU baratoi ar gyfer y dyfodol.

Cefndir

Ar 15 Mai 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog ‘Llacio’r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a’n heconomi: dal i drafod’, sy’n gosod trywydd ar gyfer codi cyfyngiadau Covid-19 yng Nghymru, gan ddisgrifio’r camau y gellid eu cymryd i lacio cyfyngiadau symud yn raddol mewn gwahanol rannau o fywyd cyhoeddus.

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg [**fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant**](#). Dogfen weithio yw’r fframwaith, sy’n nodi meddylfryd ar sut y gallai lleoliadau addysg newid eu gweithrediadau dros amser mewn ymateb i Covid-19. Mae’n amlinellu egwyddorion allweddol ar gyfer y cam nesaf o “ddatgloi” lleoliadau addysg:

1. Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff.
2. Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a’r strategaeth genedlaethol i fynd i’r afael â lledaeniad Covid-19.
3. Ennyn hyder rhieni a gofalgwyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
5. Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach.

Dolenni

[**Canllawiau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith**](#)

[**Canllawiau Ysgolion**](#)

[**Canllawiau Gofal Plant**](#)

Mehedin 2020

O dan y rheolau presennol, mae pobl yng Nghymru yn gorfod aros yn lleol a diogelu Cymru trwy:

- [cadw pellter cymdeithasol](#) trwy'r amser y tu allan i'r cartref [ac yn y gweithle](#)
- golchi dwylo'n rheolaidd
- os yn cyfarfod ag un cartref arall, aros y tu allan, [cadw pellter cymdeithasol](#) ac aros yn lleol
- gweithio o gartref os yn bosibl
- [aros gartref os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi symptomau'r Coronafeirws](#). Yn ogystal, bydd angen i'r unigolyn â symptomau archebu prawf Coronafeirws tra'u bod hwy a'u haelwyd yn ynysu gartref
- [Profi, Orlhain, Diogelu](#)
- [gorchuddion wyneb](#)

[Gweler y canllawiau pellach ar gymhwyso'r rheolau o 1 Mehefin.](#)

Efallai y byddwch hefyd am weld canllawiau ar Profi, Orlhain, Diogelu ac Gorchuddion Wyneb.

Am y tro, mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o addysgu a dysgu AU yn parhau i gael eu darparu ar-lein, wedi'u rheoli gan staff sy'n gweithio gartref.

O dan y rheoliadau presennol, lle nad yw hynny'n bosibl, mae'n rhaid i SAU fel cyflogwyr gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a rhoi sylw i'r canllawiau a nodir o dan y Rheoliadau hynny, gan gynnwys y gofynion ar gyfer cynnal pellter corfforol yn y gweithle.

Gweler y [canllawiau ar fesurau rhesymol](#) am ragor o wybodaeth.

Llety

Mae llawer o fyfyrwyr yn parhau mewn llety myfyrwyr oherwydd mai dyma eu prif breswylfa, neu oherwydd nad yw eu cartref arferol yn hygyrch.

[Gweler y cyngor ar fyw mewn llety a rennir.](#)

Dylai myfyrwyr sydd wedi gadael llety myfyrwyr ac wedi dychwelyd i'w cartrefi aros gartref am y tymor hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr yn dymuno casglu eiddo sy'n dal mewn llety prifysgol. Gweler y [canllawiau ar gyfer casglu eiddo](#) am ragor o wybodaeth am yr hyn y mae angen i fyfyrwyr ei wneud wrth gasglu eu heiddo. Dylai SAU ddarparu gwybodaeth glir i fyfyrwyr ynglŷn â mynediad i lety er mwyn osgoi teithio diangen.

Os yw myfyrwyr yn byw mewn llety prifysgol, dylai SAU eu galluogi i gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 gan gynnwys cynnal pellter corfforol.

Wrth i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus newid, bydd diweddariadau pellach i'r canllawiau ar lety myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn dilyn.

Hunanynysu

Dylai SAU sicrhau bod pob aelod o staff a myfyrwyr yn hollol ymwybodol ac yn cael eu hatgoffa o'r canlynol: os ydynt yn tybio eu bod yn dioddef o'r coronafeirws neu eu bod yn arddangos [symptomau coronafeirws](#), sy'n cynnwys:

- tymheredd uchel;
- peswch newydd a pharhaus;
- colli neu newid i synnwyr arogl neu flas;

waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau, bod yn rhaid iddynt hunanynysu ar unwaith a gwneud cais i gael prawf coronafeirws.

Mae hyn yn golygu y dylent aros gartref am **7 diwrnod** o'r adeg pan ddechreuodd eu symptomau.

Os ydynt yn byw gydag eraill a bod ganddynt hwy neu un o'r lleill symptomau coronafeirws, yna rhaid i bawb ar yr aelwyd aros gartref a pheidio â gadael y tŷ (yr unigolyn sy'n dangos symptomau am 7 diwrnod a phob aelod arall o'r aelwyd am 14 diwrnod neu hyd nes y bydd yr unigolyn sy'n dangos symptomau wedi cael prawf a chanlyniad y prawf hwnnw'n hysbys).

Mae'r cyfnod ynysu yn dechrau ar y diwrnod yr aeth yr unigolyn cyntaf ar yr aelwyd yn sâl. Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau llawn yn y dolenni canlynol:

- [aros gartref a hunanynysu](#)
- [strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu](#)

Profi, Olrhain, Diogelu

Cafodd y [strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu](#) newydd a gyhoeddwyd ar 13 Mai ei rhoi ar waith ledled Cymru o 1 Mehefin.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r cam nesaf yn ein dull o fynd i'r afael â'r coronafeirws: profi pobl sydd â symptomau yn y gymuned, olrhain y rhai sydd wedi dod i gysylltiad agos â phobl sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws, a diogelu teulu, ffrindiau a'n cymuned drwy hunanynysu. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio fel hyn:

- Profi'r bobl hynny sydd â symptomau'r coronafeirws, gan ofyn iddynt ynysu oddi wrth eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned wrth iddynt gael prawf ac aros am ganlyniad. Gallwch wneud cais am brawf ar eich cyfer chi'ch hun neu ar gyfer rhywun yn eich cartref sydd â symptomau. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant, gan gynnwys plant dan 5 oed. Os ydych yn arddangos symptomau, gallwch wneud cais am brawf coronafeirws yma <https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws>.
- Olrhain y rhai sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â phobl sydd wedi profi'n positif am y feirws, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd rhagofalon drwy hunanynysu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau a sut y bydd yn gweithio <https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau>.
- Darparu cyngor ac arweiniad, yn enwedig os yw'r sawl sydd â symptomau neu ei gysylltiadau mewn grŵp gwarchod neu grwpiau eraill sy'n wynebu risg uwch: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-warchod-ac-amddiffyn-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-0>.
- Sicrhau, os nad yw'r symptomau i'w priodoli i'r coronafeirws, y gall unigolion a'u cysylltiadau fynd yn ôl i'w trefn arferol cyn gynted ag y bo modd.

Mae rhagor o wybodaeth a chwestiynau ac atebion am Profi, Olrhain, Diogelu i'w gweld yma: <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-eich-cwestiynau>.

Diffinnir staff addysg uwch fel [gweithwyr hanfodol \(allweddol\)](#) – mae hyn yn golygu bod darlithwyr a staff cymorth sy'n ymwneud â chadw SAU yn weithredol yn gallu gwneud cais am brawf fel gweithiwr hanfodol.

Bydd y swyddog olrhain cysylltiadau yn ystyried unrhyw amgylchiadau ychwanegol, megis cysylltiadau sy'n gweithio mewn rolau proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r defnydd cywir o offer diogelu personol (PPE), unrhyw sgriniau amddiffynnol a ddefnyddir yn y gweithle, a chadw at y rheol 2m o ymbellhau, sy'n golygu, o ddilyn hyn yn gywir, na fyddant yn cael eu hystyried yn gysylltiadau at y dibenion hyn.

Mae cyngor ar ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn prawf ar gael yma:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/gwybodaeth-i-weithwyr-allweddol-ac-aelodau-aelwyd-a-brofwyd-am-haint-covid-19/>.

Asesu'r galw gan fyfyrwyr sydd angen cymorth

Mae'n bosibl y bydd sefydliadau am ystyried effaith y trefniadau presennol ar fyfyrwyr a staff penodol. Er enghraifft:

Myfyrwyr agored i niwed / Ehangu Mynediad

Dyma fyfyrwyr mewn addysg uwch sydd angen cymorth ychwanegol penodol er mwyn parhau i symud ymlaen mewn dysgu neu lle mae unrhyw asesiadau effaith cydraddoldeb yn nodi grwpiau a allai fod dan anfantais.

Gall y rhain gynnwys:

- Myfyrwyr agored i niwed a allai gynnwys:
 - pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth;
 - pobl sydd wedi bod mewn gofal;
 - gofalwyr;
 - pobl anabl, yn cynnwys rhai â phroblemau iechyd meddwl;
 - pobl ag anghenion eraill a nodwyd neu amodau iechyd.
- Myfyrwyr sydd wedi cael anhawster i ymgysylltu â dysgu ar-lein oherwydd diffyg cyfarpar priodol, cysylltedd, sgiliau digidol neu dlodi digidol.
- Myfyrwyr sydd hefyd yn weithwyr allweddol ac a allai fod yn astudio'n rhan-amser.
- Myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd, Lleiafrifol neu Ethnig (BAME).
- Myfyrwyr y mae'r darparwr o'r farn eu bod mewn perygl o ymddieithrio neu roi'r gorau i ddysgu.

Rydym yn cydnabod nad yw ailddechrau rhaglen astudio “arferol” yn bosibl ar hyn o bryd i lawer o’r myfyrwyr hyn.

Gofynnwn i sefydliadau addysg uwch ystyried sut y dylai cymorth unigol i’r myfyrwyr hyn edrych.

Gall sefydliadau addysg uwch benderfynu mai cyfuniad o ddulliau gweithredu yw’r mwyaf priodol, yn dibynnu ar anghenion y myfyriwr a gallai’r rhain gynnwys:

- Cymorth bugeiliol, gan gynnwys archwiliad iechyd meddwl a llesiant;
- Cyfathrebu rheolaidd, amserol a chlir rhwng timau’r cwrs a’r myfyrwyr, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau yn y ddarpariaeth;
- Cymorth tiwtorial i wirio sut mae’r dysgwr yn ymgysylltu â darpariaeth ar-lein/o bell a’i fod yn deall yr hyn y disgwylir ganddo, ac i roi adborth ar ei waith;
- Cymorth TGCh i sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn hyderus wrth ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein a thechnolegau eraill sy’n ofynnol ar gyfer dysgu o bell a lleihau tloedi/cynhwysiant digidol;
- Gwiriadau diogelu;
- Cyngor ac arweiniad ar y camau nesaf mewn dysgu, lleoliadau a/neu gyflogaeth;
- Lle bo hynny’n ddiogel, darparu dysgu ar sail grŵp bach neu un i un, ond gan gadw at reolau [cadw pellter cymdeithasol](#);
- Defnyddio data ymgysylltu a monitro (e.e. cofnodion llyfrgell neu fewngofnodi Rhith-amgylchedd Dysgu, monitro ‘presenoldeb’ ar-lein, defnyddio data dadansoddol lle bo hynny’n berthnasol); a
- Ceisio adborth gan fyfyrwyr ar unrhyw rwystrau i ddysgu sy’n cael eu profi.

Ystyriaethau ar gyfer cefnogaeth wyneb yn wyneb

Pan fydd SAU yn penderfynu y dylid cynnig y cyfle ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb i'r myfyrwyr hyn, rhaid i SAU gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Gweler hefyd y canllawiau ynglŷn â phryd y mae'n rhesymol i chi adael eich [ardal leol](#) neu fynychu'r [gweithle](#), a'r canllawiau [cadw pellter cymdeithasol](#) ynghlwm wrth hynny.

Mae dyletswydd ar bob cyflogwr i ymgynghori â gweithwyr ynglŷn ag iechyd a diogelwch, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y risgiau mewn lleoliadau unigol. Mae staff yn gallu dewis cynrychiolydd undeb i gymryd rhan yn y broses asesu risg, a dylai cyflogwyr rannu canlyniadau'r asesiad risg gyda'r gweithlu. Yn achos sefydliadau sydd wedi cau, dylid rhannu hyn cyn bod disgwyl i staff ddychwelyd.

Rydym yn argymhell bod asesiadau risg yn cael eu cyhoeddi ar wefan y darparwr neu ar fewnrwyd y staff.

I gael canllawiau ar gynnal asesiadau risg, ewch i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: <https://www.hse.gov.uk/news/working-safely-during-coronavirus-outbreak.htm>

Wrth benderfynu a ddylid cynnig cyswllt wyneb yn wyneb, dylai sefydliadau addysg uwch wneud y canlynol:

- Cynnal asesiad risg llawn ac asesiad effaith cydraddoldeb;
- Ymgynghori â staff, undebau a rhanddeiliaid;
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer staff, myfyrwyr a rhieni/gofalwyr, gan gynnwys ffyrdd clir iddynt ofyn cwestiynau a mynegi pryderon;
- Ar gyfer dysgu mewn canolfannau, ystyried sut y mae amgylcheddau'r brifysgol a'r mannau cymunedol yn barod ar gyfer bodloni gofynion cadw pellter cymdeithasol, sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unigolion nad ydynt o'r un cartref yn aros dau fetr oddi wrth ei gilydd;
- Asesu pa staff a myfyrwyr fydd yn gallu cymryd rhan mewn cyswllt wyneb yn wyneb ar hyn o bryd;

- Cyfleu ymddygiad disgwylidig gan staff a myfyrwyr yn glir, gan gynnwys gofynion cadw pellter cymdeithasol; gofynion hylendid (mae gofynion golchi dwylo yn rhan o'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol); beth i'w wneud os ydynt yn teimlo'n sâl, ac yn enwedig os oes ganddynt symptomau a allai fod yn gysylltiedig â'r [coronafeirws](#); beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon neu ofidiau; a beth fyddai'n digwydd os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion.

Unigolion Eithriadol o Agored i Niwed - Gwarchod

Gall rhai staff a myfyrwyr gael eu diffinio ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i'r coronafeirws. Cynghorwyd yr unigolion hyn i ddilyn mesurau gwarchod i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r bobl yn y grŵp hwn yn cynnwys (gweler y canllawiau gan gallai hyn newid):

- Pobl sydd wedi cael trawsblaniad organ solet
- Pobl â mathau penodol o ganser:
 - Pobl â chanser sydd wrthi'n cael triniaeth cemotherapi weithredol neu radiotherapi radical ar gyfer canser
 - Pobl â chanser y gwaed neu ganser mêr esgyrn fel lewcemia, lymffoma neu myeloma ac sydd ar unrhyw gam yn eu triniaeth
 - Pobl sy'n cael imiwnotherapi neu driniaethau eraill parhaus â gwrthgyrff ar gyfer canser
 - Pobl sy'n cael triniaethau canser eraill wedi'u targedu a all effeithio ar y system imiwnedd, fel atalyddion cinasau proteinau neu atalyddion PARP
 - Pobl sydd wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn neu drawsblaniad bôn-gelloedd yn y 6 mis diwethaf, neu sy'n dal i gymryd cyffuriau atal imiwnedd
- Pobl â chyflyrau anadlol difrifol gan gynnwys pob ffeibrosis cystig, asthma difrifol a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) difrifol
- Pobl â chlefyd difrifol mewn un organ (e.e. clefyd yr iau/afu, clefyd cardiofasgiwlaidd, clefyd arenol, neu glefyd niwrolegol).
- Pobl â chlefydau anghyffredin a gwallau cynhenid mewn metabolaeth sy'n cynyddu'n sylweddol y risg o heintiau (fel diffyg imiwnedd cyfun difrifol (SCID), clefyd y crymangelloedd mewn unigolion homosygaid)

- Pobl ar therapïau atal imiwnedd sy'n ddigon i gynyddu'r risg o haint yn sylweddol.
- Menywod beichiog sydd â graddau sylweddol o glefyd ar y galon, boed yn glefyd cynhenid neu fel arall.
- Plant i fyny at 18 oed sydd â graddau sylweddol o glefyd ar y galon, boed yn glefyd cynhenid neu fel arall.

Bydd angen i sefydliadau addysg uwch ystyried cymorth ar gyfer y myfyrwyr a'r staff hyn. Dylid cefnogi ystyriaethau gydag asesiad effaith cydraddoldeb.

Rhaglenni Penodol

Rydym yn cydnabod bod rhai rhaglenni, fel hyfforddiant cychwynnol i athrawon, gwaith cymdeithasol, proffesiynau meddygol a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn ogystal ag ymchwil mewn labordy, yn gallu cael eu cyflawni ar-lein a bydd angen i sefydliadau addysg uwch barhau i gydymffurfio â [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#) a chefnogi myfyrwyr.

I fyfyrwyr, yn cynnwys prentisiaid addysg uwch, y mae eu dysgu'n digwydd yn y gweithle neu mewn lle arall, y cyflogwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr amgylchedd dysgu; ond rhaid i'r darparwr dysgu [fod yn fodlon bod ei staff a'i fyfyrwyr yn ddiogel tra byddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn y gweithle](#).

Ym mhob achos, os yw natur yr amgylchedd dysgu yn golygu na all y darparwr sicrhau ei hun y bydd myfyrwyr a staff yn ddiogel, **ni ddylai cyflenwi dysgu ailddechrau ar yr adeg hon.**

Rheoli'r ddarpariaeth yn ddiogel: dysgu yn y gweithle, prentisiaethau addysg uwch a chyflawni masnachfreintiau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau a diweddariadau ar gymryd camau rhesymol i gynnal pellter corfforol yn y gweithle, ac mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ar weithio'n ddiogel yn ystod y coronafeirws, i helpu cyflogwyr a chyflogeion i ddeall sut i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig Covid-19. Ar hyn o bryd, mae wyth canllaw yn ymdrin â'r diwydiannau canlynol:

- Adeiladu a gwaith awyr agored arall
- Ffatrioedd, gweithfeydd a warysau

- Labordai a chyfleusterau ymchwil
- Swyddfeydd a chanolfannau cyswllt
- Cartrefi pobl eraill
- Bwytaï yn cynnig bwyd i'w fwyta allan neu i'w ddanfon
- Siopau a changhennau
- Cerbydau

Dylai aseswyr gweithle sy'n ymweld â chyflogwyr ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau ar gyfer eu sectorau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn y dylai cyflogwyr fod yn ei wneud i gadw eu staff yn ddiogel. Caiff y canllawiau eu diweddarau dros amser ac rydym yn rhagweld y bydd sectorau pellach yn cael eu hychwanegu wrth i fwy o ddiwydiannau ddechrau ailagor ar gyfer busnes.

Os bydd dysgwr yn adrodd am bryderon am ei ddiogelwch yn ei weithle, neu os bydd aseswr yn arsylwi ar arferion anniogel (megis hylendid gwael, neu fethiant i arsylwi ar gadw pellter cymdeithasol mewn manau caeedig), dylai'r darparwr gyfleu'r pryderon hyn i'r cyflogwr. Ni ddylai fod yn ofynnol i aseswyr a staff eraill sy'n ymwneud â chyflenwi yn y gweithle ymweld â gweithleoedd os nad yw'r darparwr yn siŵr eu bod yn ddiogel.

Gall myfyrwyr neu aseswyr roi gwybod am fater sy'n ymwneud ag amddiffyn pobl rhag Covid-19 yn y gweithle i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

- ar **0300 790 6787** (llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8:30am i 8pm)
- ar-lein gan ddefnyddio eu [ffurflen ymholiadau gweithio'n ddiogel](#)

Canllawiau Cyffredinol ar Fesurau Diogelu

Ym mhob lleoliad addysg a hyfforddiant, mae atal lledaeniad coronafeirws (COVID-19) yn golygu ymdrin â throsglwyddo uniongyrchol (er enghraifft, pan fydd rhywun mewn cysylltiad agos â rhywun sy'n tisian a pheswch) a throsglwyddo anuniongyrchol (trwy gyffwrdd ag arwynebau halogedig). Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau a chymau gweithredu i wneud hyn.

Gellir ystyried y rhain fel hierarchaeth o reolaethau a fydd, o'u gweithredu, yn creu system sy'n gynhenid fwy diogel, lle y caiff y risg o drosglwyddo a salwch ei lleihau'n sylweddol. Mae'r rheolaethau sydd ar frig yr hierarchaeth o bosibl yn fwy effeithiol ac amddiffynnol na'r rhai ar y gwaelod.

Dylai sefydliadau addysg uwch gyfathrebu'r mesurau hyn yn glir i fyfyrwyr a staff a hwyluso'r camau gweithredu hyn gymaint â phosibl.

Osgoi pob cysylltiad ag unigolion sy'n sâl

Os oes gan aelod o staff neu fyfyrwr symptomau coronafeirws (peswch parhaus newydd, twymyn neu gollu neu newid i synnwyr arogl neu flas), neu os yw hynny'n wir am rywun yn eu cartref, ni ddylent fod mewn lleoliad addysg. Dylent fod gartref yn hunanynysu tra'n gwneud cais ac yn aros am ganlyniad prawf coronafeirws, yn unol â'r canllawiau ar gyfer aelwydydd â haint coronafeirws posibl.

Golchi dwylo'n amlach

Golchwch eich dwylo'n amlach nag arfer, yn enwedig ar ôl cyrraedd lleoliad y SAU a chyrraedd adref, cyffwrdd â'r wyneb, chwythu'r trwyn, tisian neu beswch, a chyn bwyta neu drin bwyd.

Dylai staff a myfyrwyr allu defnyddio cyfleusterau glanhau dwylo yn hawdd. Dylid eu hatgoffa bod glanhau mynych yn briodol, a bod golchi dwylo'n ddiogel yn golygu y dylech eu golchi'n drylwyr am 20 eiliad gyda dŵr sy'n rhedeg a sebon a'u sychu'n drylwyr.

Os nad oes cyfleusterau golchi dwylo ar gael, cynghorir defnyddio rwb/hylif diheintio dwylo alcohol, gan sicrhau bod pob rhan o'r dwylo'n cael eu gorchuddio.

Mae'n bosibl y bydd sefydliadau addysg uwch yn awyddus i sicrhau bod cyflenwad digonol o rwb/hylif diheintio dwylo alcohol ar gael i'r staff a'r myfyrwyr.

Trefniadau glanhau a hylendid

Mae angen cyflwyno protocolau glanhau/hylendid clir i gyfyngu ar drosglwyddo coronafeirws sy'n ddealladwy i'r holl staff, contractwyr a myfyrwyr.

Wrth ddatblygu'r protocolau hyn, dylid rhoi ystyriaeth gymesur i:

- Cynyddu glanhau mewn manau cyffwrdd fel rheiliau llaw, gatiâu, dolenni drysau, platiau drysau, botymau lifft, mesuryddion parcio ac ati.
- Cofiwch y bydd lefel uchel a gweladwy o hylendid ac o'ch staff glanhau yn rhoi sicrwydd i staff a myfyrwyr.

- Darparu hylif diheintio dwylo wrth fynedfeydd ac allanfeydd y safle/adeilad a lle mae “pwyntiau cyffwrdd” rheolaidd, anochel a lluosog yn bodoli.
- Glanhau ardaloedd ac arwynebau gwaith yn amlach, gan ddefnyddio’ch cynhyrchion glanhau arferol.
- Darparu mwy o gyfleusterau gwastraff, a chasglu sbwriel yn amlach.
- Gosod hylif diheintio dwylo i’w ddefnyddio gan staff a myfyrwyr cyn iddynt fynd i mewn i gyfleusterau cegin.
- Atgyfnerthu negeseuon am olchi dwylo yn aml/defnyddio hylif diheintio dwylo.
- Cael gwared ar ffynhonnau dŵr.

Yn benodol o ran cyfleusterau toiled, dylid ystyried:

- Gwella ac amlhau cyfundrefnau glanhau.
- Cyflwyno arwyddion a marcwyr cadw pellter cymdeithasol i gefnogi cadw pellter corfforol.
- Gosod system giwio gyda marciau ar y llawr ar gyfer cadw pellter corfforol.
- Atal defnydd wrinalau ac unedau basn sydd wrth ymyl ei gilydd.
- Cyflwyno peiriannau sebon dim cyffwrdd.
- Cyflwyno gwiriadau mwy rheolaidd o ddsbarthwyr sebon/tywelion papur – oherwydd y disgwyliad y bydd mwy o ddefnydd ohonynt.
- Defnyddio arwyddion a phosteri i godi ymwybyddiaeth o dechneg golchi dwylo da, yr angen i olchi dwylo’n amlach, gan osgoi cyffwrdd â’ch wyneb ac i beswch neu disian ym mhlyg eich braich.
- Darparu nodiadau atgoffa ac arwyddion rheolaidd i gynnal safonau hylendid.
- Darparu hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad yn ogystal ag ystafelloedd ymolchi.
- Gosod canllawiau defnyddio a glanhau clir ar gyfer toiledau i sicrhau eu bod yn cael eu cadw’n lân a bod pellter cymdeithasol yn cael ei gadw.
- Defnyddio tyweli papur yn hytrach na pheiriannau sychu dwylo mewn cyfleusterau golchi dwylo.
- Lleihau’r defnydd o doiledau cludadwy.

Mae [canllawiau ychwanegol ar lanhau mewn lleoliadau ar wahân i rai gofal iechyd](#) wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU.

Sicrhau hylendid anadlol da – ei ddal, ei daflu, ei ladd!

Dylech osgoi cyffwrdd â'r wyneb, y geg, y llygaid a'r trwyn.

Gorchuddiwch y geg a'r trwyn â hances bapur wrth beswch neu disian. Os nad oes hances bapur ar gael, dylid tisian i blyg y penelin, nid i'r llaw. Dylech waredu hancesi papur mewn bag sbwriel tafladwy a golchi'ch dwylo'n syth gyda dŵr a sebon am 20 eiliad neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo.

Glanhau arwynebau a gyffyrddir yn aml yn unigol

I atal y feirws rhag lledaenu'n anuniongyrchol o berson i berson, dylai unigolion lanhau arwynebau y cyffyrddir arnynt yn aml, fel topiau bwrdd a dyfeisiau electronig (megis ffonau). Wrth lanhau, defnyddiwch y cynhyrchion arferol, fel glanedyddion a llieiniau arwyneb gwrthfacterol, gan y bydd y rhain yn ffordd effeithiol o gael gwared â'r feirws ar arwynebau.

Glanhau dillad bob dydd

Gall y feirws oroesi ar ddillad. I atal y feirws rhag lledaenu'n anuniongyrchol, dylai staff newid unrhyw ddillad/gwisgoedd/gorchuddion wyneb bob dydd a'u golchi gan ddefnyddio glanedydd arferol ar y tymheredd poethaf a nodir ar y dilledyn. Cofiwch olchi eich dwylo ar ôl newid eich dillad/iwniform/gorchuddion wyneb.

Lleihau cyswllt a chymysgu i'r eithaf

Dylech newid yr amgylchedd gymaint â phosibl er mwyn lleihau cysylltiadau a chymysgu o fewn eich lleoliad a chadw'n gaeth at y gofynion cadw pellter cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys lle bo hynny'n ymarferol, gan gadw grwpiau bach o fyfyrwyr gyda'i gilydd, ond gan gadw pellter cymdeithasol, ar gyfer gweithgaredd ar gampws.

Hylendid cyffredinol a rheolaethau ataliol

Bydd angen glanhau adeilad(au) yn rheolaidd ac o leiaf unwaith y dydd. Dylid glanhau arwynebau caled gyda dŵr cynnes a sebon neu'r cynhyrchion glanhau arferol a ddefnyddir. Dylid rhoi sylw arbennig i lanhau ardaloedd ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml. Dylid glanhau'r manau hyn yn aml mewn ardaloedd o ddefnydd dwys yn seiliedig ar asesiad lleol, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi, rheiliau, byrddau, offer, dolenni drysau ac ardaloedd ger lifftiau.

Dylai rhagor o lanhau (fel uchod) ddigwydd pan fydd carfan yn cael ei newid o fewn unrhyw ardal, darlithfa neu ystafell. Gall hyn gynnwys cyfleusterau ffreutur ac arlwyo gydag egwylliau cinio cyfnodol.

Dylai staff glanhau gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth staff a myfyrwyr bob amser.

Dylid gosod hancesi papur mewn bin gwastraff ar wahân a chael gwared o'r gwastraff yn ddiogel. Dylid gwaredu pob sbwriel yn ddyddiol.

Gweithredoedd yn dilyn achos tybiedig neu achos wedi'i gadarnhau o Covid-19

Unwaith y nodir achos tybiedig, achos ble mae symptomau'n arddangos neu achos wedi'i gadarnhau, rhaid nodi pob ardal lle bu'r unigolyn dan sylw a'u cadw'n glir.

Dylai rheolaeth o'r ardaloedd hyn fod yn ffisegol lle bo hynny'n bosibl h.y. rhwystrau gydag arwyddion addas neu y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Dylai glanhau ddigwydd cyn ail-feddiannu gan ddilyn y [canllawiau](#) Covid-19: glanhau mewn lleoliadau nad ydynt yn lleoliadau [gofal iechyd](#).

Dylid rhoi sylw arbennig i unrhyw ardal penodol lle bu'r person mewn cysylltiad uniongyrchol â hwy, h.y. desg/cadair, yn ogystal â'r holl fannau 'cyffyrddiad aml' eraill fel dolenni drysau, rheiliau ac ati.

Os oes amheuaeth fod unrhyw wastraff wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sy'n dangos symptomau, neu achos tybiedig neu wedi'i gadarnhau o Covid-19, dylid ei roi mewn bag gwastraff, ei gadw mewn lle diogel am 72 awr yna'i waredu gyda gwastraff arall.

Dylai staff glanhau ddeall y gofynion glanhau yn llawn, a dylai SAU sicrhau bod yr hyfforddiant, y cynnyrch a'r offer priodol ar gael i'r staff glanhau mewn modd amserol.

[Mae canllawiau ychwanegol ar lanhau mewn lleoliadau ar wahân i rai gofal iechyd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU.](#)

Defnydd o ofod awyr agored a gofod a rennir

Nid yw'r coronafeirws yn goroesi'n hir iawn mewn amgylcheddau heulog wedi'u hawyru'n dda. Mae'r feirws yn parhau'n hirach mewn amgylchedd dan do.

Dylid parhau i ddefnyddio gofod awyr agored ar gyfer ymarfer corff ac amserau egwyl, gan gadw at y gofynion [cadw pellter cymdeithasol](#) – ond gweler [canllawiau ar ymarfer yn yr awyr agored](#) gan fod rhai cyfyngiadau yn parhau.

Anogir dysgu yn yr awyr agored lle bo'n bosibl gan y gall hyn gyfyngu ar drosglwyddo ac mae'n haws caniatáu cadw'r pellter gofynnol o 2 fetr rhwng unigolion.

Ni ddylid defnyddio offer awyr agored oni bai bod y lleoliad yn gallu sicrhau ei fod yn cael ei lanhau'n briodol rhwng grwpiau o fyfyrwyr neu staff sy'n ei ddefnyddio, ac nad yw grwpiau lluosog yn ei ddefnyddio ar yr un pryd.

I'r myfyrwyr neu'r staff hynny sydd angen mynd i mewn i safleoedd, dylai'r defnydd o ystafelloedd staff/ardaloedd cymunedol a swyddfeydd hefyd gael ei stagro i gyfyngu ar niferoedd ac ni ddylid annog desgiau poeth.

Trefniadau cludiant

Newid amserau cychwyn/gorffen er mwyn osgoi'r amseroedd cludiant prysuraf, gan fod capasiti trafndiaeth gyhoeddus yn debygol o gael ei leihau er mwyn caniatáu [cadw pellter cymdeithasol](#).

Annog myfyrwyr a staff i gerdded neu feicio lle bo hynny'n bosibl, eto gan gadw at y gofynion [cadw pellter cymdeithasol](#).

Os ydych yn darparu cludiant pwrpasol, sicrhewch fod darparwyr cludiant yn dilyn y [canllawiau tacsï a llogi preifat](#).

Cyfarpar diogelu personol

Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar [gyngor cyfredol](#). Byddwn yn parhau i adolygu a diweddarau hyn os bydd angen, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

Mae'n hanfodol bod y rhai sydd angen cyfarpar diogelu personol yn cael mynediad ato. O ystyried natur ddigyffelyb yr argyfwng iechyd Covid-19, mae hefyd yn bwysig osgoi defnydd amhriodol

Ni fydd angen cyfarpar diogelu personol ar y rhan fwyaf o staff AU y tu hwnt i'r hyn y byddai arnynt ei angen fel arfer ar gyfer eu gwaith, megis ymchwilwyr neu'r staff a'r myfyrwyr hynny mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae canllawiau ar gyfer y rhai mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).

Fodd bynnag, os yw'n ofynnol i staff lanhau cyfarpar neu arwynebau a allai fod wedi'u halogi â hylifau corfforol, poer neu secretiadau anadlol, dylid defnyddio menig a ffedogau.

Dylid golchi dwylo bob amser cyn gwisgo ac ar ôl tynnu cyfarpar diogelu personol.

Dylai myfyrwyr sydd ag anghenion gofal personol a'u gofal fel arfer yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol, oherwydd eu hanghenion gofal personol, barhau i dderbyn gofal yn yr un ffordd.

Dylai'r holl staff y mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ddeall sut i wisgo/tynnu cyfarpar diogelu personol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo heintiau.

Defnyddio gorchudd wyneb

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi dweud yn glir nad oes tystiolaeth i gefnogi argymhell gwisgo gorchudd wyneb anfeddygol yn gyffredinol yn y gymuned. Mae gorchuddion wyneb anfeddygol yn cael eu hargymhell os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol.

Nid oes modd eu cymharu gyda'r mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo.

Mae meddwl am les y myfyrwr yn hollbwysig wrth ystyried a ddylai staff neu myfyrwr wisgo gorchudd wyneb ai peidio. Ni ddylai neb na fyddant efallai'n gallu defnyddio gorchudd wyneb yn unol â'r cyfarwyddiadau (e.e. y rhai ag anghenion ychwanegol neu anabledau) wisgo gorchudd o'r fath gan y gallai hynny gynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint.

Gwnaed datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 9 Mehefin 2020 yn nodi'r cyngor diweddaraf.

Gweler y cyngor a'r arweiniad ar [cyfarpar diogelu personol ac gorchuddion wyneb](#).

Edrych tua'r dyfodol

Wrth i ni symud allan o'r cyfyngiadau presennol, mae angen i ni fod yn glir na all Llywodraeth Cymru, yn y tymor byr iawn, fforddio gwneud newidiadau sylweddol. Pe baem yn mynd yn rhy bell, yn rhy gyflym, er enghraifft, trwy gael pawb i ddychwelyd i weithio ac astudio neu trwy lacio'r holl fesurau cadw pellter corfforol, gellid gweld adfywiad yn y feirws ac ail don a allai fod yn fwy na'r gyntaf.

Wrth ystyried llacio cyfyngiadau, dylem gofio:

- Nid oes 'ateb cyflym'. Hyd nes y ceir brechlyn neu driniaethau effeithiol, bydd yn rhaid i ni fyw gyda Covid-19 a sicrhau bod gennym fesurau i gyfyngu gorau gallwn ni ar nifer yr heintiau a'r marwolaethau, tra'n caniatáu i'n cymdeithas a'n heconomi weithredu.
- Mae'n rhaid i ni leihau nifer yr achosion newydd trwy gadw'r gyfradd drosglwyddo (R) o dan 1. Os na wnawn ni hynny, mae'n debygol y byddwn yn colli'r gallu i reoli lledaeniad y clefyd.
- Bydd y system [Profi, Olrhain, Diogelu](#) yn hanfodol os ydym am gymryd unrhyw rai o'r camau sydd o dan ystyriaeth. Mae angen i ni allu canfod ac ynysu achosion newydd a rhybuddio'r rheini a allai fod wedi cael eu heintio i aros gartref am 14 diwrnod neu hyd nes y byddant wedi cael eu profi. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn profi, olrhain a diogelu ein poblogaeth o fyfyrwyr.
- Mae unrhyw gamau a gymerwn yn dibynnu ar gydymffurfiaeth eang a pharhaus. Hyd yma, mae pobl yng Nghymru wedi bod yn eithriadol o ddisgybledig. Fodd bynnag, er mwyn atal R rhag codi uwchlaw 1 a'r epidemig yn cynyddu'r tu hwnt i reolaeth, mae angen i bobl barhau i ddilyn cyngor - ac yn arbennig i fod yn barod i [hunanyysu \(yn ogystal â phawb arall ar eu haelwyd\)](#) os ydynt yn mynd yn sâl neu fod posibilrwydd eu bod wedi cael eu heintio. Bydd yn hanfodol bod y neges hon yn cael ei chyfleu'n glir i'n poblogaeth fyfyrwyr, oherwydd y posibilrwydd nad yw llawer ohonynt yn gyfarwydd â'r system yng Nghymru.

Bydd unrhyw gamau i lacio cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu cyflwyno fesul cam, gan ystyried tystiolaeth wyddonol yn ofalus ac amser ar gyfer cynllunio a pharatoi.

Yng nghyd-destun AU, mae'n rhaid i unrhyw gamau i lacio cyfyngiadau Covid-19 a ystyrir gan sefydliadau AU unigol gydymffurfio â [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#) a dylent gael eu hasesu'n llawn ar gyfer risg gan y sefydliad unigol.

Bydd canllawiau yn y dyfodol yn cael eu darparu i gynorthwyo SAU wrth iddynt gynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Fel rheol gyffredinol, gallai'r asesiadau risg canlynol fod yn berthnasol:

Risg isel:

- Staff a myfyrwyr yn cymryd rhan mewn opsiynau dysgu, gweithgareddau a digwyddiadau rhithwir yn unig

Risg gynyddol:

- Tiwtorialau bach wyneb yn wyneb, darlithoedd llai, unigolion yn cynnal [cadw pellter corfforol](#) (2 fetr oddi wrth ei gilydd), osgoi cysylltiad ag arwynebau ac ymatal rhag rhannu gwrthrychau (e.e. strwythurau dosbarth cymysg, ar-lein a wyneb yn wyneb neu amserlennu stagro/cylchdro er mwyn darparu ar gyfer meintiau grwpiau llai), llety sy'n sicrhau [cadw pellter cymdeithasol](#) rhwng aelwydydd, neuaddau preswyl tebyg i westai yn gweithredu ar gapasiti llai a myfyrwyr yn dal ati i gadw pellter cymdeithasol mewn gofod a rennir;

Risg uchel (ni chaniateir hyn ar hyn o bryd):

- Darlithoedd llawn a darpariaeth wyneb yn wyneb, gweithgareddau a deunyddiau neu offer digwyddiadau yn cael eu rhannu a phob myfyriwr yn cymysgu'n rhydd, myfyrwyr ddim yn cael eu cadw ar wahân, llety llawn heb unrhyw gyfyngiadau rhwng aelwydydd.

